BMJ Best Practice

e-lyfrgell GIG Cymru
NHS Wales e-library

## Bulletin copy (200 words)

# Hwb i gymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol o fewn GIG Cymru

Mae e-lyfrgell GIG Cymru wedi uwchraddio ei thanysgrifiad cenedlaethol i BMJ Best Practice i gynnwys y Rheolwr Cydafiacheddau ar gyfer holl staff y GIG yng Nghymru.

Yn y DU yn unig, mae gan un o bob tri o gleifion a gaiff eu derbyn i'r ysbyty fel mater brys bum cyflwr neu fwy. Mae hyn yn achosi problem sylweddol i systemau gofal iechyd. Dim ond ar gyflyrau unigol y mae canllawiau clinigol yn canolbwyntio, ond bydd methu â thrin y claf cyfan yn arwain at ganlyniadau clinigol gwaeth, a chyfnodau hwy yn yr ysbyty. Tynnodd pandemig COVID-19 sylw pellach at y broblem, gan fod gan fwy na 60% o'r cleifion a dderbyniwyd i unedau gofal dwys gydafiacheddau.

Mae Rheolwr Cydafiacheddau BMJ Best Practice yn helpu i reoli'r claf cyfan drwy gynnwys canllawiau ar sut i drin cyflwr acíwt claf ochr yn ochr â'r cydafiacheddau a oedd ganddo eisoes.

Mae BMJ Best Practice yn adnodd ymarferol sy'n helpu gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i ddiwallu anghenion newidiol a mwy cymhleth cleifion, a gwneud y defnydd gorau o adnoddau GIG Cymru, gan arwain at well gofal a chanlyniadau i gleifion.

Mae BMJ Best Practice ar gael ar gyfrifiaduron neu ar ffurf ap, ar-lein ac all-lein, a gall staff GIG Cymru ei ddefnyddio am ddim drwy gyfrifon OpenAthens y GIG. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn bestpractice.bmj.com neu gwyliwch y fideo byr hwn

**[200 words]**

---

## Bulletin copy (short version)

# Hwb i gymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol o fewn GIG Cymru

Mae e-lyfrgell GIG Cymru wedi uwchraddio ei thanysgrifiad cenedlaethol i BMJ Best Practice i gynnwys y Rheolwr Cydafiacheddau ar gyfer holl staff y GIG yng Nghymru.

Yn y DU yn unig, mae gan un o bob tri o gleifion a gaiff eu derbyn i'r ysbyty fel mater brys bum cyflwr neu fwy. Dim ond ar gyflyrau unigol y mae canllawiau clinigol yn canolbwyntio, ond mae'r Rheolwr Cydafiacheddau yn helpu i reoli'r claf cyfan drwy gynnwys canllawiau ar sut i drin cyflwr acíwt claf ochr yn ochr â'r cydafiacheddau a oedd ganddo eisoes.

Mae BMJ Best Practice ar gael ar gyfrifiaduron neu ar ffurf ap, ar-lein ac all-lein, a gall staff GIG Cymru ei ddefnyddio am ddim drwy gyfrifon OpenAthens y GIG. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn bestpractice.bmj.com

**[112 words]**

# Social media copy

## LinkedIn and Facebook

### Hwb i gymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol o fewn GIG Cymru

Mae e-lyfrgell GIG Cymru wedi uwchraddio ei thanysgrifiad cenedlaethol i BMJ Best Practice i gynnwys y Rheolwr Cydafiacheddau ar gyfer holl staff y GIG yng Nghymru. Mae canllawiau clinigol yn canolbwyntio ar gyflyrau unigol, ond mae'r adnodd hwn yn helpu i reoli'r claf cyfan. Gall staff GIG Cymru ddefnyddio BMJ Best Practice am ddim. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn bestpractice.bmj.com

---

## Twitter

Mae @NHSWaleselib wedi uwchraddio ei thanysgrifiad cenedlaethol i BMJ Best Practice i gynnwys y Rheolwr Cydafiacheddau ar gyfer holl weithwyr iechyd a gofal proffesiynol GIG Cymru. Cymorth i wneud penderfyniadau clinigol ar gyfer y claf cyfan. Mwy o wybodaeth: bestpractice.bmj.com

Mae Rheolwr Cydafiacheddau BMJ Best Practice yn helpu i reoli'r claf cyfan gyda chanllawiau ar drin ei gyflwr acíwt ochr yn ochr â chydafiacheddau a oedd ganddo eisoes. Ar gael am ddim i holl weithwyr iechyd a gofal proffesiynol @NHSWaleselib. Mwy o wybodaeth: bestpractice.bmj.com

Mae gennych fynediad i'r rheolwr cydafiacheddau! Adnodd cymorth ymarferol ar gyfer penderfyniadau clinigol yw BMJ Best Practice, sy'n helpu i ddiwallu anghenion cymhleth cleifion a gwneud y defnydd gorau o adnoddau GIG Cymru. Ar gael am ddim i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol @NHSWaleselib. Mwy o wybodaeth: bestpractice.bmj.com

Am wybod mwy am yr ychwanegiad newydd at BMJ Best Practice? Mae @NHSWaleselib wedi uwchraddio ei thanysgrifiad cenedlaethol i gynnwys y rheolwr cydafiacheddau ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol GIG Cymru. Mwy o wybodaeth: bestpractice.bmj.com